

# Bwletin Broadcast and On Demand

16 Rhagfyr 2024

## Diweddariad i Atodiad 1 y Cod Darlledu: Hyrwyddiadau ariannol ac argymhellion buddsoddi

Mae Atodiad 1 y Cod Darlledu yn nodi'r darpariaethau perthnasol sy'n ymwneud â darlledu hyrwyddiadau ariannol ac argymhellion buddsoddi. Mae'n rhaid i ddarlledwyr Teledu a Radio gydymffurfio â'r darpariaethau hyn o dan Reolau 9.35 a 10.13 y Cod yn y drefn honno.

Mae Ofcom wedi diweddaru Atodiad 1 i adlewyrchu'r ddeddfwriaeth sy'n sail i rwymedigaethau darlledwyr mewn perthynas â hyrwyddiadau ariannol ac argymhellion buddsoddi. Mae'r atodiad diwygiedig ar gael **yma**.

Fel y nodir yn Atodiad 1, mae darlledwyr sy'n dymuno caniatáu cyfathrebu hyrwyddiadau ariannol ac argymhellion buddsoddi ar eu gwasanaethau trwyddedig yn cael eu hannog yn gryf i geisio cyngor cyfreithiol annibynnol, er mwyn sicrhau eu bod yn deall ac yn cydymffurfio â'r Cod Darlledu, y darpariaethau hyn, a'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Efallai y bydd darlledwyr hefyd yn dymuno ystyried **canllawiau perimedr yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol** ar hyrwyddiadau ariannol ac argymhellion buddsoddi.